# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 1af o Orffennaf, 2021 drwy 'Zoom'.**

Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

**Yn bresennol** drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Tegid Jones (Cadeirydd), Angela Williams (Is-gadeirydd), Aled Evans, Margaret Griffith, William Ifor Hughes, Gareth O. Davies, Trefor Wyn Jones, Sion Aled Jones, Darren Morley, a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr, Aled Davies, Thomas Prys Jones, Naomi Jones, Sian Angharad Parry, Ceri Jones, ac Anwen Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 3ydd o Fehefin 2021. (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 01.07.2021).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mehefin 2021 – (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 01.07.2021).

4. **Datgan buddiant personol**, - neb (Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod).

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

**Rhif Cais: C21/0435/35/LL - Tyddyn Cethin Rhoslan, Criccieth, LL52 0LJ** – cais ar gyfer lleoli 10 uned statig i gynnwys symud 4 a gosod 6 sydd eisioes wedi eu caniatau ar gyfer y safle ynghyd â gwelliannau amgylcheddol. **Dim sylwadau.**

**Materion yn y gymuned**.

7. **Arwyddion dim ysbwriel drwy'r gymuned** – y Clerc wedi anfon sawl llythyr/ebost at Cyngor Gwynedd ers mis Ebrill 2021 i dynnu sylw fod llawer o sbwriel yn cael ei adael/daflu ar hyd ochrau ffyrdd a llecynau parcio o amgylch y gymuned.
Gofynwyd tybed a fyddai'n bosib gosod mwy o arwyddion o amgylch yr ardal mewn mannau penodol, neu a fyddai'n iawn i'r Cyngor Cymuned osod rhai ein hunain?
Ni dderbyniwyd ateb ysgrifennedig, felly fe ffoniodd y Clerc Mr Haydn Jones, Cyngor Gwynedd a dywedodd mai tua unwaith y flwyddyn oedd ei adran yn casglu sbwriel o amgylch yr ardal fel arfer. Dywedodd fod yr ardaloedd wedi cael ei rhannu i 3 rhan, uchel, canolig ac isel, a bod y rhai uchel e.e. trefi angen ei cadw'n daclus cyn 8 y bore canlynol. Cadarnhaodd y byddai'n trefnu iddynt gasglu ysbwriel ychwanegol o fewn cymuned Llanystumdwy eleni oherwydd ein sylwadau. Dywedodd hefyd mai cyfrifoldeb y tir feddianwr yw i glirio ysbwriel sydd yn cael ei dalu yn 'slei bach', oni bai ei fod ar dir cyhoeddus y Cyngor. Gwnaeth hefyd gynghori'r Clerc i holi Mr Alan Hughes, Warden Gorfodaeth Stryd i wneud ymholiadau am gael mwy o arwyddion. Y Clerc am ei holi erbyn ein cyfarfod nesaf.

8. **Llanystumdwy**

**a) Gwasanaeth symudol Swyddfa Bost newydd i gymuned Llanystumdwy**. Bydd y gwasanaeth newydd yn dechrau ddydd Mawrth 29 Mehefin 2021, yn maes parcio Caerffynnon, rhwng 9:00 – 9:45 y.b. **Derbyn**

b) **Arwydd yn ymyl Lodge Talhenbont** – cais i gael arwydd i rybuddio traffig fod angen arafu cyn mynd i lawr yr allt am Ael y Bryn.

c) Nodwyd fod bylchau yn y wal ger y lon fawr ymhellach heibio Llwyn, Llanystumdwy draw am gyfeiriad Rhoslan, ac hefyd bod eiddew yn tyfu i'r lon ar y tro. **Y Clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

9. **Rhoslan/Ynys**

10. **Chwilog**

a) **Parcio yn Chwilog** – pryder oherwydd y cynnydd mewn tai yn y pentref, ac y bydd yn anodd parcio yno pan fydd pethau yn cael ei cynnal yn y capeli a'r neuadd. Y Clerc wedi anfon llythyr ac ebyst at Cyngor Gwynedd i holi os yw'n bosibl datrys y broblem, ac iddynt ystyried y posiblrwydd o ddefnyddio lle tu nol i'r rhes o dai ger y Madryn, ac efallai ddarn o'r cae ger Ael y Bryn, ac iddynt ymateb erbyn 01.07.2021. **Ni dderbyniwyd ateb, felly bydd rhaid disgwyl tan mis Medi**

b) **Garej Pandy** - wedi derbyn cwynion ynglŷn â'r sefyllfa cerbydau yn parcio yno ymhob man ar ochr y lon, oherwydd ei bod yn ei gwneud yn beryglus i bobl sydd yn ymweld, cerdded/ beicio a gyrru heibio'r safle. Mae prysurdeb mawr yno ac mae'n beryglus ar lon mor brysur. **Angen i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

11. **Pencaenewydd/Sardis**

**a) Safle pasio, 'lay by'-** y Clerc wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd am fwy o safleoedd pasio i gerbydau rhwng Sardis i Pensarn, Mynachdy Bach ac i'r tro am Llanaelhaearn. **Y Clerc wedi gofyn eto am ymateb cyn y cyfarfod.**

**b) Rhwng Llanarmon i Plas Du** – angen hysbysu Cyngor Gwynedd mai dim ond yr hanner isaf isaf o'r clawdd sydd wedi cael ei dorri a bod y gwrych sydd ar ben y clawdd ar yr ochr dde, wedi tyfu'n fawr a bler ac yn amharu ar weled: pan y teithio ar hyd y lon. Mae ffens wedi cael ei roi er mwyn gweld yn well ar y tro, ond y tyfiant yn rhy fawr. **Angen cysylltu â Cyngor Gwynedd.**

12. **Llangybi**

**Cae chwarae –** yr Is-gadeirydd wedi son fod y matiau du sydd ar y llawr yn colli lliw ar ddillad/sgidiau y plant ac o bosibl angen ei newid. Nodwyd hefyd, fod y fynedfa i un o'r offer ar gyfer yr anabl ddim yn agor.

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, gwnaeth y Clerc ffonio cwmni GL Jones ar 04.06.2021, ac fe wnaethant ddweud fod y matiau duon tua 15 – 20 mlwydd oed, ac felly nid oedd 'gwarant' arnyn nhw rŵan. Eglurwyd ei bod wedi cael ei gwneud allan o hen deiars lori, ac ar ôl amser, os nad ydynt yn cael ei glanhau hefo 'power washer' mae baw du 'carbon' yn dod allan ohonyn nhw. Dywedodd byddai'n syniad cysylltu hefo rhywun oedd yn gallu gwneud hyn er mwyn ei glanhau yn iawn, & byddai hyn yn ymestyn ei hoes.

Fe wnaeth hefyd ofyn am anfon copi o'r adroddiad blynyddol rydym yn ei dderbyn gan The Play Inspection Company ato fo, er mwyn iddo weld sut gyflwr yr oedden nhw pan wnaed hynny ddiwethaf, sef ar 03.12.2020. Mae'r Clerc eisioes wedi gwneud hynny.

Dywedodd GL Jones, y byddai'n dod nol atom ar ôl gweld yr adroddiad i weld os oes angen pris arnom i'w adnewyddu neu peidio.

Yn y cyfamser, fe drafodwyd y mater hefo'r Cynghorwyr Angela Williams a William Ifor Hughes ar 04.06.2021, ac fe ffoniodd y Clerc Mr Daniel Hughes, (Cwmni Dan Hughes Window & Exterior Cleaner), sydd hefo cwmni glanhau 'power wash arbennig' o Penrhyndeudraeth, ac mae'n gwneud gwaith fel hyn mewn amryw o lefydd yn yr ardal. Bu'n gweld y cae chwarae ac fe ddywedodd y byddai'n costio £300.00 iddo wneud y gwaith, oherwydd fod mwsog yn tyfu arnynt a chwyn rhwng y craciau ac yn gallu bod yn llithrig mewn tywydd gwlyb. Roedd ganddo beiriant petrol i wneud y gwaith, ond y broblem oedd cael digon o ddŵr. Fe wnaed ymholiadau ac fe gytunodd un o'r tai yn Nhroed y Garn iddo gael dwr oddi yno.

Mae'r matiau duon yn rai meter sgwâr, a dywedodd Mr Daniel Hughes fod un darn lle mae'r matiau wedi codi hefyd, ac mae wedi anfon lluniau at y Clerc.

Fe ffoniodd y Clerc Amanda Murray, Cyngor Gwynedd ac fe ddywedodd mai defnyddio contractwyr allanol y mae nhw'n ei wneud pan fydd angen gwneud hyn. Dywedodd nad oedd cyllideb gan Cyngor Gwynedd i wneud y gwaith i ni.

Cytunwyd y byddai Mr Daniel Hughes yn gwneud y gwaith fore Sadwrn, 12.06.2021, oherwydd fod brys i wneud y gwaith, ac nid oedd neb eisiau disgwyl tan y cyfarfod nesaf cyn ei ddatrys. Mae'r Clerc yn disgwyl ateb gan G.L.Jones, ac wedi anfon llun o'r matiau sydd wedi codi hefyd.

**Cyn y cyfarfod derbyniodd y Clerc ddyfynbris gan gwmni GL Jones, sef £31.38 am un tiwb o 'Tile Adhesive Sealant' oedd yn cynnwys TAW a chael ei anfon drwy'r post, a byddai angen tua un i bob teilsen ddu. Dywedodd byddai rhoi 'gwasanaeth' i'r cylchdro 'roundabout' sydd yno yn costio £453.00 yn cynnwys TAW, a bydd unrhyw 'ran' i'w drwsio yn ychwanegol.**

**Cytunwyd y byddai'r Is-gadeirydd yn ceisio cael 'sealant' i'r matiau a rhoi WD40 ar y cylchdro i weld os byddai hynny'n datrys y broblem gyntaf.**

13. **Enwau lleol** – Y Clerc wedi rhoi archeb i mewn i gwmni Llechi'r Ddraig am yr 11 arwydd isod, ac roeddent eisiau i ni dalu gyntaf cyn iddynt wneud y gwaith. Maent wedi anfon anfoneb am £660.00 yn cynnwys TAW, a fydd yn cael ei dalu yn dilyn y cyfarfod. Dyma yw'r rhestr derfynol o'r enwau pontydd.
1. Pont Rhyd y Croesau
2. Pont Rhyd y Benllig
3. Pont Rhyd yr Eirin
4. Pont Hendre Garcin
5. Pont Tanrallt
6. Pont Maenllwyd
7. Pont Ynys Creua
8. Pont Melin Pencoed
9. Pont Brychyni
10. Pont Bryn/Pont Ffynnon Gadfa
11. Pont Bryn Beddau **Derbyn**

14. Angen caniatâd i'r Clerc roi sylwadau ar geisiadau cynllunio a ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ag Awst 2021 ar ol ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is-gadeirydd. Os bydd galw, gellir cynnal cyfarfod byr i'w trafod drwy Zoom. **Derbyn**

**Materion Ariannol**

15. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Fe wnaeth y Clerc anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 01.07.2021. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd

eisioes wedi ei wneud. Y Clerc wedi trefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi ar 01.07.2021 cyn cael ei talu). **Derbyn**

16. **Archwilio mewnol** – y Clerc wedi danfon y dogfennau i gael ei archwilio i Gaernarfon 12.06.2021, ac wedi mynd i'w nhol ar 18.06.2021. Cafwyd gwybod fod popeth yn iawn, a'i bod yn barod i gael ei anfon at yr Archwiliwr Allanol, a bod y Cadeirydd wedi ei llofnodi ar 01.07.2021. **Derbyn**

17. Angen caniatâd i'r Clerc dalu biliau (os bydd angen) yn ystod misoedd Gorffennaf ag Awst 2021, ar ol ymgynghori gyda'r Cadeirydd. **Derbyn**

18. Cyflog a chostau y Clerc fis Gorffennaf 2021 – angen caniatad i'w talu ar ol y 5ed o Awst 2021, oherwydd na fydd cyfarfod yn ystod y mis hwnnw. **Derbyn**

19. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 01.07.2021:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Dan Hughes Window&Exterior Cleaner (3229) | Glanhau matiau du cae chwarae Llangybi | **300.00** | **0.00** | **300.00** | **300.00** |
| Llechi'r Ddraig (2917) | 11 arwydd pontydd | **550.00** | **110.00** | **660.00** | **660.00** |
| Clifford Hughes (58) | Llwybrau<br>Ffynnon Cybi<br>Ceg llwybr Abercin<br>Toriad cyntaf:-<br>Afonwen<br>Ynysgain Bach<br>Tý Newydd<br>Bontfechan, Tyn Morfa | <br>**110.00**<br>**18.00**<br><br>**110.00**<br>**97.00**<br>**103.00**<br>**116.00** | | **554.00** | **554.00** |

Cyflog mis Mehefin 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS :-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mehefin 2021<br>35 awr y mis x £11.05 = £386.75 | 386.75 -<br>Llai treth £77.20<br>= £309.55 | **309.55** | **309.55** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Mehefin 2021 | 386.00 x 20% = £77.20 | **77.20** | **77.20** |
| Costau'r Clerc<br>Mehefin 2021 (cynnwys costau teithio i Gaernarfon i ddanfon a nol y bocs archwilio) | £44.11 | **44.11** | **44.11** |

Cyflog mis Gorffennaf 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS :-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Gorffennaf 2021<br>35 awr y mis x £11.05 = £386.75 | 386.75 -<br>Llai treth £77.20<br>= £309.55 | **309.55** | **309.55** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Gorffennaf 2021 | 386.00 x 20% = £77.20 | **77.20** | **77.20** |
| Costau'r Clerc<br>Gorffennaf 2021 | £16.00 | **16.00** | **16.00** |

Eitemau ychwanegol ar drafodwyd ar y noson.

20. Rhwng Coed Tanllyn a Drofa, Pencaenewydd – coeden yn pwyso ar y linnell ffon. Angen cysylltu â Chyngor Gwynedd.

21. Arwydd 30 wedi cael ei daro ym Mhencaenewydd. Angen cysylltu â Chyngor Gwynedd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 02.09.2021.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**